

Datganiad i'r Wasg

Naws Nadoligaidd i agoriad Ffair Grefftau flynyddol Oriol Môn

10.11.17



Bydd croeso cynnes a Nadoligaidd i bawb eleni wrth i Oriol Môn lansio ei Ffair Grefftau Nadolig hynod boblogaidd ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd am 7.00pm.

Ers sefydlu'r Ffair yn 1991, mae wedi dod yn fwy a mwy poblogaidd, ac mae wedi dod yn uchafbwynt y flwyddyn i nifer o ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Dywedodd Nicola Gibson, Rheolwr Profiad Ymwelwyr, Oriol Môn "Rydym i gyd yn edrych ymlaen at lansiad y Ffair Grefftau eleni, bydd hi'n llawn awyrgylch yr ŵyl yma, gan y bydd Côr Ieuenctid Môn yn canu carolau a byddwn yn gweini gwin poeth a mins peis am ddim. Bydd gennym hefyd 43 o grefftwyr yn arddangos efo ni ac mae nifer ohonynt yn newydd sbon eleni. Bydd yr eitemau yn cynnwys gemwaith, gwaith coed, llechen, cerameg, gwydr, tecstilau ac addurniadau Nadolig i'r cartref. Rwy'n siŵr y bydd rhywbeth at ddant pawb – anrheg Nadolig neu rywbeth arbennig i chi eich hun efallai."

Yn ystod noson y lansiad bydd Caffi Blas Mwy ar agor o 5.30pm tan 8.30pm lle bydd Gwennan a'i staff yn cyflwyno eu bwydlen Nadoligaidd newydd. I'r rheini sy'n dymuno cael pryd o fwyd cyn i'r Ffair Grefftau agor, gallwch ffonio Blas Mwy i archebu eich bwrdd ar :- 01248 751516.

Bydd Ysbryd yr Ŵyl yn cario 'm laen trwy'r tymor gyda Diwrnod Hwyl Nadolig arbennig iawn i'r teulu oll ar 9 Rhagfyr, o 11.00am tan 3.00pm. Y gwesteion arbennig fydd Betsan Brysur a Tara Tan Toc, a bydd yno hefyd weithdai i blant, peintio wynebau a llawer mwy.

Bydd y Ffair Grefftau Nadolig ar agor tan 31 Rhagfyr, a bydd yn cau'n fuan am 4.00pm Noswyl Nadolig. Bydd yr Oriol hefyd wedi cau ar 25 a 26 Rhagfyr a 1 Ionawr. Bydd yr Oriol yn

dychwelyd i agor yn ôl yr arfer ar ôl Dydd Calan, a bydd ar agor yn ddyddiol rhwng 10.30am a 5.00pm, mynediad am ddim. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 01248 724444 / www.orielynysmon.info

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth

Nicola Gibson, Rheolwr Profiad Ymwelwyr

01248 752014 / NicolaGibson@ynysmon.gov.uk